# Harneisio ceffylau ar gyfer gwaith arbenigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys harneisio ceffylau ar gyfer gwaith arbenigol. Dylech fod yn gallu dewis, cymhwyso a gosod yr harneisiau ar gyfer y gweithgaredd penodedig, a sicrhau bod yr harneisiau yn ddiogel cyn trosglwyddo i'r defnyddiwr. Bydd angen i chi weithio i derfyn amser.  Gallai harneisiau fod ar gyfer cystadlaethau gyda disgyblaethau gwahanol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. cadarnhau gofynion ar gyfer harneisio ceffylau gyda'r person priodol
3. trin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, sy'n osgoi ymddygiad sy'n achosi pryder yn ymwneud â lles ac sy'n cynnal iechyd a diogelwch
4. dewis, cymhwyso a gosod yr harneisiau ar gyfer y gwaith arbenigol, yn unol â'r gofynion
5. gwirio bod yr harneisiau yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio cyn trosglwyddo i'r defnyddiwr
6. adnabod unrhyw harneisiau diffygiol a chymryd y camau priodol o fewn terfynau eich awdurdod
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y mathau o waith arbenigol posibl a'r gofynion ar gyfer harneisio ceffylau
3. y mathau o gyfrwyon, ffrwynau genfaog, ffrwynau, rhwymau, esgidiau uchel ac offer arall a ddefnyddir ar gyfer gwaith arbenigol
4. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal priodol a lleihau straen i'r ceffyl a pheryglon i chi eich hun ac eraill
5. sut mae ffit yr harneisiau yn effeithio ar symudiad y ceffyl
6. peryglon harneisiau anniogel a sut i sicrhau bod yr harneisiau yn ddiogel
7. cyfyngiadau eich cyfrifoldeb ar gyfer ymdrin â harneisiau diffygiol
8. y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer harneisio
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Dewis, cymhwyso a gosod yr harneisiau canlynol:

- cyfrwy GP
- ffrwyn enfaog gyda band trwyn penwar
- offer arbenigol, e.e. cyfrwyon neidio neu dressage, amrywiaeth o ffrwynau, bandiau trwyn, platiau brest a morticals
- esgidiau uchel ymarfer a rhwymau
- offer arall lle y bo'n briodol

Harneisio ceffylau ar gyfer gwaith arbenigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq307 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; harneisiau; iechyd a lles anifeiliaid |